
Version 1

# PEN-BLWYDD 25 MLYNEDD Y LOTERI GENEDLAETHOL

## CANLLAW LOGO I DDERBYNYDDION GRANT



THE NATIONAL LOTTERY | 25

Mae 2019 yn nodi Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol, gyda'r Loteri'n cael ei dynnu gyntaf ar ddydd Sadwrn 19 Tachwedd 1994. Ers hynny, mae chwaraewyr Y Loteri Genedlaethol wedi codi mwy na £39 biliwn ar gyfer achosion da.

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae 535,000 o grantiau unigol wedi'u gwobrwyo ar hyd a lled y DU – sy'n cyfateb i oddeutu 190 o brosiectau sydd wedi newid bywydau ym mhob rhanbarth cod post o'r DU.

Mae Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol yn digwydd ar ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2019. Gan ddechrau o ddydd Mawrth 21 Mai 2019, rydym yn gofyn i sefydliadau a phrosiectau sydd wedi elwa o arian Y Loteri Genedlaethol i helpu atgoffa'r cyhoedd am y gwahaniaeth mae'r Loteri Genedlaethol wedi'i wneud iddynt hwy.

Mae Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth am y gwaith anhygoel y mae pobl (fel chi!) yn ei wneud yn eich cymunedau lleol, gyda help arian Y Loteri Genedlaethol.

Rydym yn gwybod pa mor angerddol a balch ydych chi am y gwaith a wnewch sy'n newid bywydau. Fe fyddem wrth ein boddau petaech yn rhannu'r hyn yr ydych wedi gallu ei wneud ag arian Y Loteri Genedlaethol.

Yn eich geiriau eich hunan, rhowch ddiolch i chwaraewyr Y Loteri Genedlaethol a dweud wrthynt am yr hyn a wnaed yn bosibl trwy eu cefnogaeth. Rhannwch fideos a delweddau i ddangos eich gwaith yn well.

# Dyma Logo Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol

## Defnyddiwch y Logo Pen-blwydd 25 Mlynedd pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth am eich gwaith yng nghyd-destun Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol.


Dylai'r logo gael ei ddefnyddio fel y gwelir yma'n unig. Ni ddylai'r elfennau gael eu gwahanu.

Fersiwn Cynradd – y bathodyn:

# Lleoliad a Maint y Logo
## Pen-blwydd 25 Mlynedd
## Y Loteri Genedlaethol

I sicrhau fod ein logos yn cael eu gweld ar eu gorau bob tro, dylech ddefnyddio ein rheolau maint a lleoliad.

**YR ARDAL WAHARDDEDIG**




Bydd y logo'n fwy gweladwy ac yn cael mwy o effaith pan fydd yn cael ei amgylchynu gan ddigon o le clir.

Mae ardal waharddedig wedi cael ei chreu lle na all testun, delweddau na graffeg arall ymddangos.

**CREU'R ARDAL WAHARDDEDIG**




Cafodd yr ardal waharddedig ei diffinio gan faint y brif lythyren 'T' yn nhestun logo'r Loteri Genedlaethol.

Dylid rhoi lle ychwanegol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**MEINTIAU ISAF**

Print




Digidol




Isafswm maint y bysedd sydd wedi'u croesi yw 10mm mewn uchder.

Yr uchafswm maint ar gyfer cymwysiadau digidol yw 40px

# Dewis Lliwiau Logo
## Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol

I sicrhau fod ein logo yn ddarllenadwy ac yn cael effaith, mae'n bwysig defnyddio'r fersiwn gywir.

Defnyddiwch y fersiwn lliw llawn bob tro lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Gellir defnyddio fersiynau du a gwyn lle bo hynny'n angenrheidiol.

**LLIW LLAWN**

**MONO**

**CEFN Y LLIW LLAWN**

**MONO CEFN**

Wrth ddefnyddio'r Logo ar ben ffotograffiaeth, meddyliwch yn ofalus am ei leoliad a pha mor weladwy ydyw.


Er mai'r logo lliw llawn yw'r dewis sy'n cael ei ffafrio, mae fersiwn du a fersiwn gwyn wedi cael eu creu. Dim ond pan fo'r cefndir yn rhy olau neu'n rhy dywyll i'r Logo lliw llawn fod yn weladwy y dylid defnyddio'r fersiynau hyn.

# Y Defnydd o Logo

## Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol

Dylid defnyddio'r Logo fel 'bathodyn' i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddathlu 25 mlynedd o'r Loteri Genedlaethol.


Does dim angen ei osod ochr yn ochr â Logos eraill, mae'n gweithio orau pan yn sefyll ar ben ei hunan.






# Enghraifft o Ddefnydd: Gwefan
## Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol

Gallwch ychwanegu Logo Pen-blwydd 25 Y Loteri Genedlaethol i dudalen cartref eich gwefan.



# Enghraifft o Ddefnydd: Social Media

## Pen-blwydd 25 Mlynedd Y Loteri Genedlaethol

Dyma enghraifft o sut gallwch ddefnyddio Logo Pen-blwydd 25 Y Loteri Genedlaethol ar gyfryngau cymdeithasol.

Does neb yn gwybod yn well na chi'r gwahaniaeth mae arian y Loteri Genedlaethol wedi gwneud i'ch sefydliad a'r gwaith a wnaiff. Felly yn eich geiriau eich hunan, dywedwch diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a rhoi gwybod iddynt yr hyn a wnaed yn bosibl trwy eu cefnogaeth.

Efallai y byddwch eisiau defnyddio'r Logo Pen-blwydd 25 Mlynedd yng nghornel un o'ch delweddau pennawd cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r enghraifft a ddangosir yma yn ddelwedd pennawd ar Trydar.

